Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Darllediadau Gwleidyddol

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Gorffennaf 2004

Cyflwyniad

Pam fod gennym ddarllediadau gwleidyddol?

Mewn gwlad lle mae gan bawb fynediad at deledu a radio a'r rhain yw'r dull mwyaf amlwg o gyfathrebu drwy'r wlad gyfan, mae'n briodol fod gan y cyfryngau darlledu rôl allweddol wrth sicrhau bod etholwyr yn cael gwybod am bolisïau'r pleidiau gwleidyddol sy'n ceisio cael eu hethol.

Yn y DU, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod ymgeiswyr o bleidiau cymwys sy'n dymuno dod yn arweinwyr gwleidyddol yn derbyn cyfle teg i gyfathrebu eu safbwyntiau *yn uniongyrchol* i bleidleiswyr. Ar hyn o bryd, darperir y cyfle hwn yn rhad ac am ddim gan y darlledwyr hynny y mae eu sianeli ar gael yn rhwydd i'r niferoedd mwyaf o bobl.

Fel yn achos elfennau eraill o'r trefniadau etholiadol sydd wrth wraidd ein system ddemocrataidd, mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein trefniadau ar gyfer darparu darllediadau gwleidyddol yn gyson. Ynglŷn â hynny yr ydym yn ymgynghori yn y ddogfen hon.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gwaith rhagorol a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i adolygu rôl darllediadau gwleidyddol. Penllanw hyn oedd ei adroddiad a'i argymhellion ar ddarllediadau gwleidyddol a gyhoeddwyd y llynedd ac a ymddangosodd yn ei adroddiad cynhwysfawr ar newidiadau a argymhellir i arferion etholiadol, *Voting for Change*.

Pwrpas argymhellion y Comisiwn Etholiadol yw sicrhau bod gennym drefniadau cadarn ac effeithiol y gall pleidiau gwleidyddol eu dilyn i gyfathrebu â phobl ar draws y Deyrnas Unedig ar adeg etholiadau.

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r Comisiwn Etholiadol yn llwyr yn y nod hwn. Mae'n elfen bwysig o gynnal diddordeb y cyhoedd yn y broses etholiadol.

Er hynny, dim ond rhan fechan o'r etholwyr y mae darllediadau gwleidyddol (DG) yn eu cyrraedd. Ar adeg pan fo'r dewis o sianeli cyfathrebu yn cynyddu, ac wrth i ni symud tuag at system ddigidol, daw'n anoddach fyth i bleidiau gwleidyddol gyrraedd ac ennyn diddordeb yr etholwyr.

Nid oes yna atebion rhwydd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu cyfle i ddarlledwyr, pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yn gyffredinol wneud sylwadau ynglŷn â gweithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol, ynghyd â chyfle i gynnig dulliau eraill o sefydlu deialog agosach rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr fel y gallwn sicrhau democratiaeth lle mae pawb yn chwarae rhan lawn, sy'n un o brif gryfderau ein cymdeithas.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth i weithredu ei chynigion cyn gynted ag y bo amser Seneddol yn caniatáu.

Tessa Jowell.

TESSA JOWELL

Cynnwys

		tudalen
Yr achos o blaid darllediadau gwleidyddol		5
Ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Comisiwn Etholiadol		7
Trefniadau ymgynghori		17
Atodiad A	Y trefniadau presennol ar gyfer darllediadau gwleidyddol	18
Atodiad B	Darllediadau gwleidyddol a ddangoswyd ar y teledu cyn Etholiad Cyffredinol 2001	20
Atodiad C	Darllediadau gwleidyddol a ddarlledwyd ar y radio cyn Etholiad Cyffredinol 2001	21
Atodiad D	Asesiad Effaith Rheoliadol Rhannol	23

Cwestiynau'r Ymgynghoriad – crynodeb

Rydym yn awyddus i wella dull gweithredu Grŵp Cyswllt y Darlledwyr. Rydym yn ceisio barn ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni'r amcan hwn a gwneud y system darllediadau gwleidyddol yn fwy tryloyw a haws ei rhagweld. Gweler paragraff 6.8.

Hoffem ymgynghori ynglŷn â strwythur a rôl bosib unrhyw bwyllgor statudol; ynglŷn â phwy allai benodi Cadeirydd; ac ynglŷn â sut y gellid cynnal annibyniaeth y Cadeirydd hwnnw. Fel arall, a fyddai tynhau gweithdrefnau Grŵp Cyswllt y Darlledwyr yn wirfoddol yn ffordd foddhaol o fynd i'r afael â phryderon y pleidiau gwleidyddol? Gweler paragraff 6.9.

Dan y naill opsiwn neu'r llall, sut fyddai gweithdrefn hyblyg a digonol ar gyfer ystyried sylwadau yn gweithio? Gweler paragraff 6.10.

Gyda golwg ar reoleiddio'r BBC ac S4C, byddem yn croesawu safbwyntiau ynglŷn a chyflwyno ysbryd argymhelliad y Comisiwn – hynny yw, sicrhau y caiff pob darlledwr ei reoleiddio mewn modd tryloyw a rhagweladwy – o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol, yn amodol wrth gwrs ar ganlyniad Adolygiad Siarter y BBC. Gweler paragraff 7.7.

Hoffem glywed eich barn ynglŷn â sut i wneud y meini prawf presennol ar gyfer pennu rheolau cymhwyso ar gyfer darllediadau gwleidyddol, a'u hyd a'u hamlder, yn fwy tryloyw. Gweler paragraff 8.3.

Hoffem glywed eich barn hefyd ynglŷn ag a ellid cynnwys rhai egwyddorion uwch yn y ddeddfwriaeth heb golli'r hyblygrwydd sy'n hanfodol yn ein barn ni er mwyn gweithredu'r system darllediadau gwleidyddol yn deg. Gweler paragraff 8.4.

Beth yw'r ffordd ymarferol orau i ni greu cysylltiad agosach rhwng y pleidiau gwleidyddol a'r pleidleiswyr? Gweler paragraff 9.10.

Ai'r ateb yw ei gwneud yn ofynnol i bob gorsaf deledu neu radio (sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd a throthwyon cyfran penodedig) gynnwys darllediadau gwleidyddol yn eu hamserlenni, fel yr argymhella'r Comisiwn Etholiadol?

O ddilyn yr opsiwn hwnnw:

- **pa baramedrau ac eithriadau ddylid eu pennu?**
- **beth ddylai'r lefelau cyrraedd cynulleidfa a'r trothwyon cyfran fod?**
- **i ba raddau y dylid rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng teledu a radio?**
- **beth fyddai'r ffordd orau o gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny sydd bellaf oddi wrth y broses wleidyddol, sydd efallai'n llai tebygol o wylio neu wrando ar y sianeli mwyaf poblogaidd?**

A oes yna ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni'r nod hwn, boed trwy ddarlledu neu ddefnyddio technoleg y Rhyngrwyd neu ffonau symudol?

Byddai'r Llywodraeth yn croesawu eich barn ynglŷn â'r pwyntiau hyn a mesurau heblaw ymestyn DG, yn cynnwys ymarferoldeb mesurau gwirfoddol yn hytrach na deddfwriaeth. Gweler paragraff 9.13.

Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn â mesurau eraill yn hytrach na dyrannu ac amserlennu (e.e. o fewn neu oddi allan i'r amseroedd mwyaf poblogaidd) darllediadau gwleidyddol a fyddai'n caniatáu i ddarlledwyr unigol gyflawni eu cyfrifoldeb am ddyraniad teg ar eu sianeli. Hefyd, a oes cyfle i ddefnyddio unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth i ddarparu darllediadau gan fwy o bleidiau gwleidyddol? Gweler paragraff 10.3.

Byddem yn falch o dderbyn eich sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoliadol Rhannol. Yn benodol, rydym am glywed eich barn ynglŷn â'r gost i fusnesau o weithredu'r prif gynigion a nodwyd ym mharagraff *3.2*. Gweler Atodiad D.

Yr achos o blaid darllediadau gwleidyddol

Roedd adroddiad y Comisiwn Etholiadol[1] yn cynnwys asesiad defnyddiol o ddiddordeb y cyhoedd mewn darllediadau gwleidyddol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod cefnogaeth eang iddynt, a'n bwriad ni yn sicr yw parhau i sicrhau bod gan bleidiau gwleidyddol cymwys lwyfan i hysbysu pleidleiswyr o'u polisïau ohono.

Cytunwn â'r Comisiwn fod darllediadau gwleidyddol yn parhau i fod yr unig gyfle i bleidiau gwleidyddol cymwys gyflwyno neges yn uniongyrchol i'r etholwyr trwy gyfrwng y cyfryngau darlledu. Gwerthfawrogir yn fawr y rhyddid i bleidiau o'r fath gyfathrebu'n uniongyrchol, ac rydym wedi ymrwymo i barhau â hynny.

Roedd adroddiad y Comisiwn yn cyflwyno darlun cymysg o'r graddau y mae darllediadau gwleidyddol yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd. Rydym yn ymwybodol o'r angen i gyfateb dymuniadau'r pleidiau gwleidyddol i gael mwy o gyfleoedd i ddarlledu â'r fantais wirioneddol i'r etholwyr.

Rydym wedi nodi bod 63% o'r rhai a ymatebodd i ymchwil y Comisiwn Teledu Annibynnol yn dilyn etholiad 2001[2] o'r farn fod darllediadau gwleidyddol naill ai'n 'bwysig iawn' neu'n 'weddol bwysig'. Ond mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y darganfyddiad yn yr un adroddiad fod 56% o'r rhai a ymatebodd yn honni eu bod naill ai'n newid y sianel neu'n diffodd y set pan ddaw darllediad gwleidyddol ymlaen.

Mae'n amlwg fod angen cael cydbwysedd rhwng buddiannau'r cyhoedd, fel pleidleiswyr ar y naill law ac fel gwylwyr a gwrandawyr ar y llaw arall.

Mewn cyfnod pan fo mwy a mwy o sianeli cyfathrebu yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a oes yna ddulliau eraill o wella'r ddeialog rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr?

Hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt

Un dewis arall i DG fyddai hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt, sy'n chwarae rhan bwysig yn system etholiadol yr Unol Daleithiau, er enghraifft.

Mae'r Comisiwn Etholiadol a'r Llywodraeth yn gwrthod hyn fel ateb. Mae'n debyg y byddai profiad yr Unol Daleithiau o hysbysebion hynod o ddrud sy'n aml yn rhy syml a negyddol yn gweithio'n groes i'r nod o sicrhau etholwyr sydd â gwybodaeth dda a theg am yr amrywiaeth o bolisïau a gynigir gan yr amrywiol bleidiau sy'n sefyll yn yr etholiad. Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn ailfabwysiadu'r gwaharddiad presennol ar hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt – trwy wahardd pleidiau gwleidyddol rhag 'prynu' gofod hysbysebu oddi wrth ddarlledwyr. Ceir cefnogaeth eang a pharhaus i'r gwaharddiad, ac mae'n diogelu rhag i'r rhai hynny sy'n gallu fforddio talu am hysbysebion orau gamystumio'r broses wleidyddol.

Pan gyflwynwyd y Mesur Cyfathrebu, ni allai'r Llywodraeth – ond dim ond oherwydd y gwaharddiad ar hysbysebu gwleidyddol – wneud datganiad dan adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau

[1] Y Comisiwn Etholiadol: *Party Political Broadcasting – Report and Recommendations*, Ion 2003. Ar gael o wefan y Comisiwn www.electoralcommission.org.uk

[2] ITC Election 2001: *Viewers' Responses to the Television Coverage*, 2001.

Dynol 1998 fod y Mesur yn gydnaws a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw hyn yn golygu bod y Llywodraeth yn meddwl fod yr agwedd hon o'r Mesur yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. Yn hytrach na hynny, oherwydd cyflwr y gyfraith ar y pryd[3] ni allai ddweud fod y gwaharddiad yn fwy tebygol na pheidio o drechu her gyfreithiol yn y llysoedd domestig neu Strasbourg. Fel yr esboniodd y Llywodraeth yn y Senedd[4], mae o'r farn fod yna seiliau polisi a chyfreithiol cryf dros gredu bod y gwaharddiad yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, hyd yn oed os na fodlonir y prawf ar gyfer gwneud datganiad ynglŷn â chydnawsedd.

Efallai nad hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt yw'r unig ddewis arall yn hytrach na DG, neu ymestyn y DG a ddarlledir. Mae Adran 9 yn gofyn am eich barn ar ddewisiadau eraill posib.

[3] Er nad yw penderfyniadau Tŷ'r Arglwyddi yn achos *R (on the application of ProLife Alliance) v British Broadcasting Corporation* [2003] UKHL 23 a Llys Strasbourg yn *Murphy v Ireland* (Rhif Cais 44179/98), yn derfynol, rhoddant fwy o goel i'r gred y byddai'r gwaharddiad yn gwrthsefyll her.

[4] Hansard - Tŷ'r Cyffredin: Col 787-789, 3 Rhagfyr 2002; Tŷ'r Arglwyddi: Col 658-659, 25 Mawrth 2003.

Ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Comisiwn Etholiadol

Mae'r adran hon yn ymateb i holl argymhellion y Comisiwn Etholiadol o'i adroddiad 2003. Nodir yr argymhellion isod, ac rydym wedi gofyn cwestiynau penodol ynglŷn â'r materion hynny yr ydym yn awyddus i wybod eich barn amdanynt.

Casgliadau ac argymhellion y Comisiwn Etholiadol

1. Er nad yw'r dystiolaeth ynghylch dylanwad darllediadau gwleidyddol (DG) yn derfynol, mae'r Comisiwn Etholiadol o'r farn eu bod yn parhau i fod yn un o'r arfau ymgyrchu mwyaf effeithiol ac felly'r pwysicaf sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol cymwys. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr egwyddor y dylai pleidiau gwleidyddol cymwys fod yn rhydd i roi cyhoeddusrwydd i'w safbwyntiau a'u polisïau ymysg pleidleiswyr, ac y dylai pleidleiswyr allu derbyn gwybodaeth o'r fath, yn parhau'n anorchfygol.

1.1. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r casgliad hwn. Rydym ni a'r Comisiwn yn ymwybodol mai cymysg yw'r dystiolaeth ar ddylanwad darllediadau gwleidyddol ar etholwyr. Ond fel y Comisiwn, credwn fod yr egwyddorion sy'n sail i ddarllediadau gwleidyddol yn rhai cadarn a phwysig.

2. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn annog pleidiau i fod yn arloesol wrth gynllunio a chynhyrchu eu DG. Mae hefyd yn annog pleidiau i sicrhau 'cydymffurfiad caeth ac amserol â'r manylebau technegol sy'n ofynnol gan y darlledwyr'[5].

2.1. Cytuna'r Llywodraeth y gall cynllun a chynhyrchiad gael effaith fawr ar ymateb cynulleidfaoedd i ddarllediadau gwleidyddol, a'u bod, yn wir, yn gwneud hynny. Po fwyaf deniadol yw darllediad gwleidyddol, y lleiaf tebygol yw gwylwyr a gwrandawyr i ddiffodd y set. Mae adroddiad y Comisiwn yn cydnabod bod pleidiau gwleidyddol wedi sylweddoli eu cyfrifoldeb i fod yn arloesol wrth gynhyrchu darllediadau gwleidyddol, ac mae'r Llywodraeth yn croesawu'r sylweddoliad hwnnw.

2.2. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i weld y trefniadau rhwng darlledwyr a phleidiau gwleidyddol yn rhedeg yn esmwyth. Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau gweithrediad esmwyth yw i'r trefniadau fod yn rhai teg. Mewn geiriau eraill, byddem am i unrhyw system sicrhau cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n bwysig i'r pleidiau gwleidyddol a'r angen i ddarlledwyr wasanaethu er budd y cyhoedd, fel dinasyddion ac fel gwylwyr a gwrandawyr.

2.3. Mae gan y pleidiau gwleidyddol cymwys hawl i gael cynnig amser darlledu ar gyfer darllediadau gwleidyddol. Dymuna'r Llywodraeth nodi bod ganddynt hefyd gyfrifoldebau wrth ymarfer yr hawl hon, ac mae'n cefnogi barn y Comisiwn y dylai pleidiau sicrhau 'cydymffurfiad caeth ac amserol â manylebau technegol'[5a].

[5] Comisiwn Etholiadol: *Op cit.*, t36.

[5a] *Ibid.*

3. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cynnal adolygiad llawn o drefniadau DG yn nes at amser trosglwyddo i'r system ddigidol.

3.1. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn dal i gwrdd â'u hamcanion. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym maes y cyfryngau darlledu, sy'n newid mor gyflym. Rydym yn ymwybodol fod y tirlun darlledu yn newid a bod angen newid y rheoliadau i gyd-fynd ag ef.

3.2. Bydd y trosglwyddiad i'r system ddigidol yn cael effaith fawr ar y ffordd yr ydym yn gwylio'r teledu yn y wlad hon – a rhagwelwn y bydd y trosglwyddiad yn cychwyn mor fuan â'r flwyddyn 2006. Bydd newidiadau o'r fath yn sicr yn golygu y bydd angen talu sylw manwl i'r ffordd y mae darllediadau gwleidyddol yn cyd-fynd â'r amgylchedd cyfathrebu, sy'n brysur newid.

3.3. Mae'r Ddeddf Cyfathrebu 2003 yn rhoi pwerau i'r Swyddfa Cyfathrebu newydd (Ofcom) i reoleiddio'r sector cyfathrebu. Rydym yn ymwybodol y bydd Ofcom yn adolygu sawl agwedd ar y sector y mae wedi derbyn cyfrifoldeb amdanynt. Pan ddaw'r amser, byddem yn sicr yn cefnogi unrhyw adolygiad o ddarllediadau gwleidyddol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r trosglwyddiad i'r system ddigidol ac unrhyw newidiadau eraill ym maes cyfathrebu (megis y cynnydd yn y defnydd o'r Rhyngrwyd), yn ogystal ag effaith unrhyw newidiadau a wneir i'r system darllediadau gwleidyddol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

4. Cred y Comisiwn fod yr achos o blaid cadw'r gwaharddiad ar hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt yn y cyfryngau darlledu yn argyhoeddi. Mae'r gwaharddiad er budd yr etholwyr ac felly, er budd y cyhoedd. Mae hefyd er budd pleidiau gwleidyddol a darlledwyr.

4.1. Mae'r Llywodraeth yn croesawu cefnogaeth y Comisiwn i'w waharddiad ar hysbysebion gwleidyddol y telir amdanynt yn y cyfryngau darlledu. Rydym yn argyhoeddedig fod parhau â'r gwaharddiad er budd gorau democratiaeth, ac felly rydym wedi'i ailfabwysiadu yn Neddf Cyfathrebu 2003[6].

5. Ymddengys i'r Comisiwn y byddai system y DU yn gwrthsefyll ei chraffu dan y Ddeddf Hawliau Dynol, o leiaf os yw'r drefn o ddarllediadau rhad ac am ddim a digyfryngiad yn gadarn.

5.1. Mater o gofnod yw nad oedd y Llywodraeth yn gallu gwneud datganiad dan adran 19(1)(a) y Ddeddf Hawliau Dynol fod y Mesur Cyfathrebu yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn pan gyflwynwyd ef i'r Senedd. Fodd bynnag, yr unig reswm am hyn oedd oherwydd fod y Mesur yn ailfabwysiadu'r gwaharddiad presennol ar hysbysebu gwleidyddol. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r cyswllt a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol rhwng y gwaharddiad ar hysbysebu gwleidyddol y telir amdano a'r trefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol, gan ei fod yn awgrymu y byddai'r gwaharddiad yn gwrthsefyll ei graffu o leiaf os yw'r system ar gyfer darllediadau gwleidyddol yn gadarn[7]. Nid ydym yn derbyn y rhesymeg hon, y gellid cymryd ei bod yn awgrymu bod y trefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol yn ddiffygiol ynddynt eu hunain. Rydym am bwysleisio ein bod yn credu bod y trefniadau presennol yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn; a hyd yn oed heb newidiadau i'r trefniadau hynny, mae yna ddadleuon cyfreithiol cryf y dylid cefnogi'r gwaharddiad ar hysbysebu gwleidyddol yn y llysoedd domestig ac yn Strasbourg.

5.2. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, nad ydym yn derbyn yr achos a wneir gan y Comisiwn Etholiadol dros geisio gwella a diweddaru'r trefniadau hynny.

---

[6] Gweler adrannau 319 a 321.

[7] Y Comisiwn Etholiadol: *Op cit.*, t 17, paragraff olaf ond un.

Cynigion y Comisiwn Etholiadol ar gyfer newidiadau i'r ddeddfwriaeth

6. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai rhwymedigaeth arfaethedig Ofcom i bennu rheolau (gweler argymhelliad 8) hefyd gynnwys gofyniad i sefydlu pwyllgor sy'n cynnwys y darlledwyr ac yn cyfarfod dan ofal cadeirydd sy'n annibynnol o'r darlledwyr.

6.1. Rydym wedi nodi bod pleidiau gwleidyddol yn bryderus, dan y trefniadau presennol ar gyfer dyrannu darllediadau, fod yna ddiffyg tryloywder, gormod o ddisgresiwn i ddarlledwyr ac anhawster i ragweld beth fydd penderfyniadau'r darlledwyr. Wrth gwrs, rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a'u cydbwyso â'r ffaith fod darlledwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl ddarllediadau yn cydymffurfio â'r gyfraith a bod rhywfaint o hyblygrwydd i ddarlledwyr yn debygol o fod yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i ymgynghori ynglŷn â dau opsiwn, a chredwn y gallai'r ddau ohonynt gyflwyno'r amcan pwysig hwn.

6.2. Ar hyn o bryd, darlledwyr unigol sy'n gyfrifol am ddyrannu darllediadau gwleidyddol, ond yn ymarferol, mae Grŵp Cyswllt y Darlledwyr[8] yn chwarae rhan bwysig. Mae adroddiad y Comisiwn yn cydnabod y rhan bwysig sydd gan y Grŵp yn y system, ac yn cydnabod y manteision a ddaw yn sgil hynny. Rydym eisiau bod yn siŵr fod unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol yn dod â gwelliannau gwirioneddol i'r system.

6.3. Er ein bod yn cydnabod y gall fod diffygion yn y ffordd y mae'r system bresennol yn gweithio, rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i ddulliau eraill heblaw deddfwriaeth pryd bynnag y bo hynny'n briodol, a hefyd i osgoi systemau sy'n rhy fiwrocrataidd. Nid ydym yn credu ychwaith bod angen pwyllgor statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Hoffem geisio eich barn felly ynglŷn ag a ddylid delio â phryderon y pleidiau gwleidyddol trwy gyfrwng y pwyllgor statudol a argymhellir gan y Comisiwn Etholiadol, neu trwy ddulliau anstatudol eraill.

6.4. O ystyried yr opsiwn o bwyllgor statudol yn gyntaf, hoffem wybod eich barn ynglŷn â'r ffordd y byddai pwyllgor o'r fath yn gweithio'n ymarferol. Ar hyn o bryd, y darlledwyr sy'n gyfrifol am gyflawni eu rhwymedigaethau wrth benderfynu ar ddyrannu darllediadau gwleidyddol. Mae gan y rheoleiddwyr rôl wrth ddatrys unrhyw anghydfod rhwng y darlledwyr a'r pleidiau gwleidyddol. Pe byddai Ofcom yn sefydlu pwyllgor, a fyddai hynny'n cyfaddawdu ei gyfrifoldeb i ddatrys anghydfodau rhwng y darlledwyr a'r pleidiau gwleidyddol? Beth yn union ddylai rôl y Cadeirydd annibynnol fod? A ddylai ef neu hi wneud y penderfyniadau terfynol, neu a ddylai'r Cadeirydd ganolbwyntio ar hwyluso trafodaethau, gan gyfeirio materion heb eu datrys i sylw Bwrdd Ofcom, efallai? Pwy ddylai benodi'r Cadeirydd, o ystyried yr angen i sicrhau ffydd llwyr y cyhoedd yn ei annibyniaeth? Gyda golwg ar yr argymhelliad a drafodir yn adran 9 o'r bennod hon, pe byddai'n ofynnol i unrhyw ddarlledwr newydd gario darllediadau gwleidyddol, sut fyddai'n cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor? Gyda golwg hefyd ar yr argymhelliad a drafodir yn adran 7, beth fyddai goblygiadau sefydlu'r pwyllgor statudol i'r BBC? Yn olaf, a oes risg na fyddai pwyllgor statudol yn gallu ymateb mor gyflym ag y bo angen yn ystod ymgyrch etholiadol, pe câi ei sefydlu ar sail rhy benodedig?

[8] Fforwm ar gyfer y BBC, S4C, a darlledwyr i gydgysylltu polisi ac arferion darlledu pleidiau gwleidyddol, yw Grŵp Cyswllt y Darlledwyr. Mae gan y rheoleiddiwr darlledu, Ofcom, statws arsylwr, yn ogystal â'r Comisiwn Etholiadol.

6.5. Fel dewis arall i bwyllgor statudol, a allai Grŵp Cyswllt y Darlledwyr gytuno i fabwysiadu gweithdrefnau sylfaenol i fynd i'r afael â phryderon y pleidiau? Er enghraifft, arweiniad a fyddai ar gael i'r cyhoedd yn esbonio sut y bydd Grŵp Cyswllt y Darlledwyr yn gwneud penderfyniadau, o fewn pa gyfnodau amser ac ar sail pa feini prawf, hysbysiadau o benderfyniadau a'r cyfiawnhad drostynt, a chyfleoedd i gael ystod ehangach o arsylwyr annibynnol. Ni fyddai modd gorfodi hyn yn statudol, ond gallai gwrdd â'r amcan o sicrhau mwy o dryloywder a gwell gallu i ragweld a chael ei weithredu ar sail yr egwyddor o hunan-reoleiddio.

6.6. Rydym hefyd yn nodi argymhelliad y Comisiwn (ar dudalen 21 o'i adroddiad) y dylid pennu gweithdrefn apelio. Cytunwn yn llwyr â'r egwyddor hon, a nodwn fod trywydd apelio i'r rheoleiddiwr eisoes yn bodoli, ond **hoffem i'r rhai sy'n ymateb ystyried beth yn union ddylai natur unrhyw weithdrefn apelio amgen fod.**

6.7. Yn y pen draw, wrth gwrs, gallai plaid wleidyddol sy'n teimlo iddi gael cam ofyn am adolygiad barnwrol o benderfyniad darlledwr, ond mae'n annhebyg y byddai hynny'n darparu dull o wneud iawn cyn cynnal yr etholiad perthnasol. Awgrymwn felly, y dylai unrhyw weithdrefn, gael ei hystyried o fewn cyd-destun y pwysau amser sy'n rhan annatod o'r cyfnod sy'n arwain at etholiad. Ychydig o amser sydd gan ddarlledwyr i wneud eu penderfyniadau, a gallai proses apelio hirfaith fod yn ddiwerth oni bai y ceir penderfyniadau mewn da bryd er mwyn gallu newid amserlenni cyn y diwrnod pleidleisio. Credwn y bydd hyblygrwydd yn bwysig yma, ond wrth gwrs rydym am sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i'r rhai hynny a effeithir gyflwyno eu sylwadau. Fodd bynnag, pe gallai'r broses 'apelio' olygu bod un blaid yn cyflwyno ei hachos ar draul un arall, byddai'n anodd osgoi dosbarthu sylwadau i'r holl rai a effeithir, a fyddai'n gwneud y system yn llawer mwy trwsgl.

6.8. I gloi, rydym yn chwilio am wir welliant yn null gweithredu Grŵp Cyswllt y Darlledwyr. Rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni'r amcan hwn a dod a mwy o dryloywder a gwell gallu i ragweld i'r system darllediadau gwleidyddol.

6.9. Gan fynd â phob opsiwn ymhellach, hoffem ymgynghori ynglŷn â strwythur a rôl bosib pwyllgor statudol; ynglŷn â phwy allai benodi Cadeirydd, ac ynglŷn â'r ffordd y gellid cynnal ei annibyniaeth ef neu hi. Fel arall, a fyddai tynhau gweithdrefnau Grŵp Cyswllt y Darlledwyr yn wirfoddol yn mynd i'r afael â phryderon y pleidiau gwleidyddol yn foddhaol?

6.10. Dan y naill opsiwn neu'r llall, sut allai gweithdrefn hyblyg a digonol ar gyfer ystyried sylwadau weithio?

7. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai rheoleiddio'r rhwymedigaeth i ddangos DG fod yr un fath i bob darlledwr, ac y dylai'r BBC a'r Awdurdod Cymreig (S4C) gael eu dwyn i mewn i gwmpas Ofcom i'r diben hwn.

7.1. Rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylai rheoleiddio rhwymedigaethau DG fod yr un fath i bob darlledwr. Cytunwn â barn y Comisiwn na ddylai'r trefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol lesteirio tryloywder a'r gallu i ragweld. Felly, rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â sut i gyflwyno system reoleiddio sy'n bodloni'r egwyddorion pwysig hyn, o fewn cyd-destun y strwythur rheoleiddio presennol.

7.2. Rydym wedi egluro y bydd y system reoleiddio newydd ar gyfer darlledu, a nodwyd yn y Ddeddf Cyfathrebu, yn berthnasol i'r BBC ar sail sy'n rhoi ystyriaeth i rôl a chyfansoddiad unigryw'r BBC, ei berthynas â'r Senedd a chyfrifoldebau craidd y Bwrdd Llywodraethwyr.

7.3. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth gyffredinol i Ofcom gyflawni swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC. Fodd bynnag, mae'r rhwymedigaethau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn deillio'n bennaf o Siarter a Chytundeb y BBC, nid o'r ddeddfwriaeth. Gwnaed diwygiadau i'r Confensiwn yn Rhagfyr 2003 er mwyn cyflwyno'r polisi hwn. Gan fwyaf, mae'r diwygiadau yn adlewyrchu darpariaethau perthnasol y Ddeddf Cyfathrebu, yn amodol ar addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried nodweddion arbennig y BBC.

7.4. Un o effeithiau'r diwygiadau yw dod â'r BBC o fewn cwmpas côd safonau rhaglenni Ofcom (ac eithrio amcanion safonau sy'n ymwneud â gweithredu'n ddiduedd a chywir, sydd wrth wraidd cyfrifoldebau'r Llywodraethwyr, a hysbysebu a nawdd), a chan fwyaf, y cwotâu rhaglenni sy'n ofynnol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Byddai gweithredu'n groes i'r gofynion hyn yn golygu y gallai'r Ofcom gosbi'r BBC, gan gynnwys ei ddirwyo.

7.5. Rydym wedi darparu'n benodol yn y Confensiwn diwygiedig fod gan y BBC rwymedigaeth i gario darlledidau gwleidyddol. Mae'r Ddeddf Cyfathrebu yn ei gwneud yn ofynnol i S4C gario darlledidau pleidiau gwleidyddol, ac yn darparu y dylai eu rheoleiddio barhau'n gyfrifoldeb i'r Awdurdod Cymreig. Mae'n ofynnol i'r BBC a'r Awdurdod Cymreig fel ei gilydd roi ystyriaeth i safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â threfniadau ar gyfer darlledidau gwleidyddol ac mae hyn yn darparu mesur helaeth o gydraddoldeb rhwng y darlledwyr. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r Awdurdod Cymreig hefyd roi ystyriaeth i'r rheolau a wneir gan Ofcom sy'n berthnasol i'r darlledwyr trwyddedig perthnasol eraill[9].

7.6. Mae system reoleiddio bresennol y BBC yn darparu nifer o wahanol fodelau y gellid eu defnyddio i sicrhau'r un fath o reoleiddio ar gyfer y BBC â'r hyn sy'n berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Mae cyswllt agos rhwng dyrannu darlledidau gwleidyddol a chyfrifoldebau'r darlledwyr i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiduedd, sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Llywodraethwyr, yn achos y BBC. Mae yna achos felly i'r Llywodraethwyr gadw'r cyfrifoldeb hwn ochr yn ochr ag Ofcom, gyda'r naill a'r llall yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol, fel y mae eisoes yn ofynnol iddynt ei wneud yn ôl statud.

7.7. Ar hyn o bryd, ni welwn unrhyw reswm pam na ellir cyflwyno ysbryd argymhelliad y Comisiwn – sef pwysigrwydd sicrhau rheoleiddio tryloyw y gellir ei ragweld ar gyfer pob darlledwr – o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol. Fodd bynnag, mae'n well ystyried dulliau rheoli'r BBC, yn cynnwys rôl y Llywodraethwyr a'u cyfrifoldebau am DG, yng nghyd-destun ehangach yr Adolygiad Siarter sydd eisoes ar y gweill. Pe byddai cyfrifoldebau'r Llywodraethwyr am oruchwylio DG newid yn sgil yr Adolygiad hwnnw, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth wedyn i'r goblygiadau ar gyfer yr Awdurdod Cymreig.

8. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cryfhau'r ddeddfwriaeth a chynnwys ynddi feini prawf y dylai'r rheoleiddiwr roi ystyriaeth iddynt wrth wneud rheolau ynghylch cymhwysedd ar gyfer DG a hyd ac amlder DG.

[9] Gweler paragraff 18 o Atodlen 12 y Ddeddf Cyfathrebu 2003.

8.1. Rydym yn cefnogi amcan y Comisiwn o sicrhau mwy o dryloywder a gwell gallu i ragweld. Fodd bynnag, mae gennym bryderon y gallai'r math o fanylebion a argymhellir gan y Comisiwn fod yn niweidiol mewn termau ymarferol a democrataidd. Byddai pennu côd i'r trefniadau, yn arbennig ar gyfer dyrannu darllediadau, mewn deddfwriaeth sylfaenol yn golygu y byddai perygl o golli'r union hyblygrwydd sydd wedi caniatáu i'r system bresennol esblygu'n llwyddiannus ac ymateb i newidiadau mewn arferion etholiadol mewn ffyrdd y gellir parhau i'w hamddiffyn.

8.2. Er enghraifft, bu darlledwyr yn gallu cymhwyso'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd i ddarlledu mewn modd hyblyg er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae pleidiau unigol wedi'u trefnu. Yn Etholiad 2001, caniatawyd i sefydliad penodol a oedd wedi'i gofrestru ar wahân yn Lloegr a'r Alban, ond a oedd i bob pwrpas yn ffurfio un blaid ar draws y Deyrnas Unedig, ddarlledu oherwydd bod y darlledwyr yn gallu cyfrif nifer y seddi yr oedd y blaid yn eu hymladd drwy'r DU gyfan. Gallai meini prawf statudol atal hyblygrwydd o'r fath a dylem hefyd orfod rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gallai meini prawf sy'n berthnasol i etholiadau San Steffan fod yn llai perthnasol i etholiadau i gynulliadau cenedlaethol neu ranbarthol. Mae angen rhoi ystyriaeth debyg i ardaloedd daearyddol darlledwyr a'u cynulleidfaoedd a'r gyfran y maent yn ei chyrraedd yn ardal yr etholiad penodol. Mae'r hyblygrwydd cyfredol yn caniatáu i'r rheoleiddwyr roi ystyriaeth i gyfleoedd eraill y gallai darlledwyr eu cynnig i bleidiau gwleidyddol gyfleu eu polisïau i'r etholwyr, er enghraifft, y *Political Slot* ar Channel 4. Gall yr opsiynau hyn fod o fantais i bob ochr. Mae'r hyblygrwydd presennol hyd yn oed wedi caniatáu ar gyfer amgylchiadau pan gaiff etholiadau eu canslo.

8.3. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod cyswllt â'r materion a fynegwyd yn yr argymhelliad a drafodwyd yn adran 6. Rydym yn cydnabod fod lle i weithredu'r rheolau mewn ffordd fwy tryloyw, mae'n debyg, ac felly **hoffem wybod eich barn ynglŷn â sut i wneud y meini prawf ar gyfer pennu rheolau i gymhwyso ar gyfer darllediadau gwleidyddol, eu hyd a'u hamlder, yn fwy tryloyw.**

8.4. **Hoffem hefyd wybod eich barn ynglŷn ag a ellid cynnwys rhai egwyddorion uwch yn y ddeddfwriaeth heb golli'r hyblygrwydd sy'n hanfodol yn ein tŷb ni er mwyn gweithredu'r system yn deg.** Er enghraifft, a gâi rhywfaint o hyblygrwydd ei golli trwy nodi y dylai unrhyw feini prawf a bennir gan y rheoleiddiwr roi ystyriaeth i'r gyfran o seddi sy'n cael eu hymladd gan bob plaid? A allai amgylchiadau godi yn y dyfodol sy'n golygu y byddai pennu hynny yn y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn anodd i'r rheoleiddiwr weithredu'r system yn deg ac yn hyblyg? Ceir cwestiwn penodol am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer darllediadau gwleidyddol yn adran 10 o'r bennod hon.

9. Mae'r Comisiwn yn argymell, er mwyn cyrraedd sbectrwm mor eang â phosib o etholwyr, na ddylid cyfyngu DG i fath cul o ddarlledwr. Mae'n argymell y dylai fod yn ofynnol i unrhyw sianel deledu neu radio sy'n cyrraedd cynulleidfa a throthwyon cyfran penodol gynnwys darllediadau gwleidyddol yn ei amserlen. Dylai'r meini prawf fod yn berthnasol i holl sianeli darlledu'r DU ar gyfer pob prif etholiad.

9.1. Cefnogwn yn llawn fwriad y Comisiwn i ennyn diddordeb cynulleidfa ehangach yn y broses ddemocrataidd. Rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni hyn, boed trwy DG neu ddulliau eraill. Fel yr esbonia Atodiad A, mae'r trefniadau presennol wedi datblygu i

raddau helaeth fel adlewyrchiad o arfer y BBC. Fe'u seiliwyd felly ar y cysyniad o ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus a buont yn gymwys i'r sianeli hynny sydd â rhwymedigaethau arbennig o ganlyniad i'w mynediad at sbectrwm darlledu prin: hynny yw, y BBC, C3, C4, C5 a Classic FM, Virgin Radio a talkSPORT, a'u cyd-ddarllediadau digidol.

9.2. Ai hynny yw'r ffordd orau o hyd o benderfynu pa sianeli ddylai fod â rhwymedigaeth i ddarlledu DG, o leiaf nes ein bod yn nes at drosglwyddo i'r system ddigidol?

9.3. Mae'n werth nodi nad oes rhwymedigaeth ar hyn o bryd ar ddarlledwyr cebl a lloeren i ddangos rhaglenni arbennig, ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol megis mewn argyfwng. Ond mae sianeli o'r fath yn manteisio ar weithio mewn democratiaeth agored ac mae cwmnïau da yn sylweddoli fod cyfrifoldebau cymdeithasol penodol yn dod yn sgil y manteision hynny. Mae'n rhaid mai cyfrannu at gryfhau ein system ddemocrataidd yw un o'r pwysicaf o'r cyfrifoldebau hyn.

9.4. Pe câi'r rhwymedigaeth ei hymestyn i sianeli eraill, mae nifer o gwestiynau ynglŷn â sut yn union y byddai'r system yn gweithio a phwy fyddai â rhwymedigaeth ac rydym yn ceisio eich barn ynglŷn â'r atebion gorau i'r cwestiynau hyn. Mae'r Comisiwn yn argymell mai'r rheoleiddiwr darlledu ddylai bennu faint o gynulleidfa'r DU a gyrhaeddir a'r trothwyon cyfran. Sut gâi hyn ei gyflawni yn ymarferol?

9.5. Ein hamcan yw parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd o oedran pleidleisio gyda'r wybodaeth a gyflwynir mewn darllediadau gwleidyddol, ac yn arbennig i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac yn enwedig y rhai hynny sydd bellaf oddi wrth y broses wleidyddol. Rydym am sicrhau fod unrhyw ehangu ar y gofynion darllediadau gwleidyddol yn cynyddu cyfanswm y gynulleidfa ar gyfer darllediadau gwleidyddol, yn hytrach na chyrraedd lefel bresennol y gynulleidfa ar sianeli newydd yn unig. Mewn perthynas â darlledu, mae'n debyg mai Ofcom sydd yn y sefyllfa orau, o fewn paramedrau penodol a bennwyd gan statud, i bennu'r ffordd orau o gyflawni'r amcan hwnnw.

9.6. **Byddem yn falch felly o glywed eich barn ynglŷn â'r paramedrau hynny.** Er enghraifft, rydym yn cydnabod ac yn cytuno â chasgliad y Comisiwn na fyddai'n briodol i gario darllediadau gwleidyddol ar sianeli plant lle nad yw'r brif gynulleidfa yn gymwys i bleidleisio, ac yn yr un modd ar sianeli a ddarlledir yn bennaf ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i'r DU. **Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn ag a ddylid cynnwys eithriadau, a sut y dylid eu diffinio.**

9.7. **Yn yr un modd, rydym yn ceisio eich barn ynglŷn ag ai cyfran o'r gynulleidfa a'r gynulleidfa a gyrhaeddir yn unig yw'r meini prawf cywir, ac uwchlaw pa drothwy y dylai fod yn ofynnol i ddarlledwyr gario darllediadau gwleidyddol.** Ar hyn o bryd, dim ond un sianel deledu nad yw'n darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyrraedd dros 1% o'r gynulleidfa, sef – Sky One gydag 1.8%[10]. Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn â pha ran ddylai 'proffil y gynulleidfa' ei chwarae wrth bennu pa sianeli newydd ddylai gario darllediadau gwleidyddol, ac yn wir a fyddai hyn mewn gwirionedd yn ystyriaeth bwysicach na 'chyfran o'r gynulleidfa' wrth gyflawni ein hamcanion.

[10] Ffigyrau ITC 2002.

9.8. Byddem hefyd yn hoffi gweld ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i le'r gyfran o'r gynulleidfa mewn perthynas â radio. Gellid cymhwyso'r maen prawf hwn yn addas i sianeli teledu a ddarlledir, yn bennaf, ar draws y DU. Fodd bynnag, pe defnyddir cyfran o'r gynulleidfa genedlaethol fel maen prawf ar gyfer gorsafoedd radio rhanbarthol, gellir rhagweld sefyllfa anghyson lle byddai darllediadau gwleidyddol yn cael eu darlledu, dyweder, ar orsaf ranbarthol Manceinion, ond nid ar yr orsaf gyfatebol ym Mirmingham, yn syml ar sail eu cyfran o'r gynulleidfa genedlaethol.

9.9. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i'r meini prawf y dylid ei defnyddio wrth ystyried y nifer fawr o orsafoedd radio lleol a rhanbarthol. A ddylid cymhwyso unrhyw estyniad i'r gofyniad i ddarlledu DG i'r sianeli radio hynny sy'n cyrraedd cyfran arbennig o'r gynulleidfa ar draws y DU yn unig? Y tu hwnt i hynny, a ddylai'r gyfran o'r gynulleidfa genedlaethol fod yn berthnasol wrth bennu pa rai o'r gorsafoedd hynny ddylai gario darllediadau gwleidyddol? A fyddai'n well defnyddio rhyw feini prawf eraill er mwyn cyflawni'r amcan o gyrraedd cynulleidfaoedd radio newydd gyda darllediadau gwleidyddol? A ddylid gwneud Ofcom yn gyfrifol am amcan cyffredinol a phennu pa ddarlledwyr ddylai gael eu heithrio o rwymedigaeth trwydded gyffredinol i ddarlledu darllediadau gwleidyddol, ar ôl ymgynghori? Mae yna gwestiwn penodol hefyd ynglŷn ag a ddylai fod yn ofynnol i sianeli radio digidol cenedlaethol (yn unig) gario darllediadau gwleidyddol yn union fel y mae eu cystadleuwyr analog?

9.10. I grynhoi, beth fyddai'r ffordd orau i ni sicrhau'r cysylltiad agosach yr ydym yn chwilio amdano rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr?

Ai'r ateb yw ei gwneud yn ofynnol i bob sianel deledu a radio (sy'n cyrraedd cynulleidfa a throthwyon cyfran penodol) gynnwys darllediadau gwleidyddol yn eu hamserlenni, fel yr argymhella'r Comisiwn Etholiadol?

Pe câi'r opsiwn hwnnw ei ddilyn:

- **pa baramedrau ac eithriadau ddylid eu pennu?**
- **beth ddylai lefelau'r gynulleidfa a gyrhaeddir a'r trothwy cyfran fod?**
- **pa lwfansau ddylid eu gwneud ar gyfer y gwahaniaeth rhwng teledu a radio?**
- **beth fyddai'r ffordd orau o gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny sydd bellaf oddi wrth y broses wleidyddol sydd efallai leiaf tebygol o wylio neu wrando ar y sianeli mwyaf poblogaidd?**

A oes yna ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni'r nod hwn, boed trwy ddarlledu neu ddefnyddio technoleg y Rhyngrwyd neu ffonau symudol?

9.11. Er enghraifft, efallai y byddai'n fwy effeithiol i sianeli nad ydynt yn cario DG gynnig cyhoeddiadau gwasanaeth cyhoeddus yn atgoffa etholwyr pan fydd etholiad yn digwydd a lle gallant ddod o hyd i fwy o wybodaeth. Efallai y byddai hynny'n amharu llai ar wylwyr a gwrandawyr, ac ar amserlenni darlledu, na DG llawn ar sianel arbenigol; a byddai'n cadw'r costau i bleidiau gwleidyddol o orfod cynllunio ac ariannu gwahanol DG ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, i lawr.

9.12. Efallai y gellid cefnogi mesurau o'r fath trwy sefydlu gwefan Etholiad Cenedlaethol, er enghraifft, a thrwy negeseuon testun.

9.13. **Byddai'r Llywodraeth yn croesawu eich barn ar y mesurau hyn a mesurau eraill yn hytrach nag ymestyn DG, yn cynnwys y posibilrwydd o fesurau gwirfoddol yn hytrach na deddfwriaeth.**

Newidiadau i'r trefniadau manwl

10. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymell y dylai cymhwyso ar gyfer ddarllediadau gwleidyddol barhau i fod yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr a gyflwynir gan bob plaid.

10.1. Cytunwn â chasgliad y Comisiwn. Nodwn y pryderon a leisiwyd gan bleidiau llai fod 'y system bresennol o gymhwyso yn seiliedig ar nifer y seddi sy'n cael eu hymladd yn annheg, gan ategu'r bwlch rhwng yr ychydig o bleidiau mwy a'r llu o bleidiau llai'[11].

10.2. Mae hwn yn fater anodd na ellir ei ddatrys trwy drefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol yn unig. O ystyried popeth, cytunwn â chasgliad y Comisiwn y byddai rhoi cyfle i lawer mwy o bleidiau wneud darllediadau gwleidyddol yn arwain at gynnydd aruthrol yn yr amser a roddir i ddarllediadau gwleidyddol, ac ni fyddai modd gweithredu hynny. Cytunwn hefyd y dylid cynnig darllediadau gwleidyddol i'r pleidiau hynny y mae gan y mwyafrif o'r gynulleidfa gyfle i bleidleisio drostynt.

10.3. Ar hyn o bryd, y maen prawf cymhwyso ar gyfer darllediadau gwleidyddol yw y dylai'r blaid wleidyddol fod yn cyflwyno ymgeiswyr mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi sy'n cael eu hymladd. Nid yw'n glir a yw'r Comisiwn o'r farn mai honno yw'r gyfran orau neu a fyddai ymestyn y rhwymedigaeth darllediadau gwleidyddol i fwy o sianeli yn awgrymu cyfran wahanol. Ar hyn o bryd, mae pob sianel yn ceisio cynnig dyraniad amser rhesymol i bob plaid wleidyddol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso ac wrth gwrs mae hyn yn cyfyngu ar nifer y pleidiau sy'n gymwys ar gyfer darllediadau gwleidyddol. **Byddem yn croesawu eich barn ar ddulliau eraill heblaw dyrannu ac amserlennu (e.e. o fewn neu oddi allan i'r amseroedd brig) darllediadau gwleidyddol a fyddai'n caniatáu i ddarlledwyr unigol gyflawni eu cyfrifoldeb ar gyfer dyraniad teg ar eu sianeli. Hefyd, a oes lle i ddefnyddio unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth i gynnwys darllediadau gan nifer fwy o bleidiau gwleidyddol?**

11. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai pleidiau allu cael darllediadau byrrach na'r hyn a geir ar hyn o bryd. Er mwyn cynnal y gwahaniaeth rhwng DG a hysbysebion masnachol, awgryma y dylid pennu isafswm hyd DG yn 1 munud 30 eiliad.

11.1. Mater i Ofcom a'r darlledwyr fydd hyn, gan roi ystyriaeth i farn y Comisiwn. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn rhoi hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr gyflwyno darllediadau byrrach neu hirach: mae'r côd presennol yn darparu ar gyfer darllediadau gwleidyddol o 2 funud 40 eiliad, 3 munud 40 eiliad a 4 munud 40 eiliad. Cytunwn â'r Comisiwn y dylid cadw'r gwahaniaeth rhwng hysbysebu masnachol a darllediadau gwleidyddol, a chefnogwn yr argymhelliad y dylid cael isafswm hyd ar gyfer darllediadau gwleidyddol sy'n adlewyrchu hyn.

[11] Y Comisiwn Etholiadol: *Op cit.*, Ion 2003, t 28.

12. Cred y Comisiwn y byddai'n bosib darparu mwy o hyblygrwydd i bleidiau, yn cynnwys yr opsiwn o gael mwy o ddarllediadau byrrach, heb olygu na fyddai darlledwyr yn gallu gweithredu'r system. Mae'n argymell y dylid rhoi'r dewis i bleidiau rhwng dau 'becyn' DG neu fwy, sef dewis rhwng llai o ddarllediadau hwy, neu fwy o ddarllediadau byrrach, yn y bôn.

12.1. Unwaith eto mater i'r rheoleiddiwr a'r darlledwyr yw hyn, ac nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth a fyddai'n atal Ofcom a'r darlledwyr rhag cyflawni hyn. Rydym yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol o fwy o hyblygrwydd a 'phecynnau' o ddarllediadau gwleidyddol. Credwn y gallai'r amrywiaeth o 'fathau' o ddarllediadau helpu i ennyn diddordeb gwylwyr yn well.

13. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid parhau i labelu DG yn glir, ond y dylai labeli fod yn ddeniadol a llawn gwybodaeth. Mae'r Comisiwn wedi cynnig gweithio gyda darlledwyr a phleidiau i gynllunio labeli newydd ar gyfer DG.

13.1. Cytunwn â'r casgliad hwn a chroesawn gynnig y Comisiwn i gyfrannu ei arbenigedd i gynllunio labeli newydd ar gyfer darllediadau gwleidyddol.

14. Mae'r Comisiwn yn fodlon fod y trefniadau presennol ar gyfer nifer ac amseriad darllediadau pleidiau ym Mhrydain Fawr nad ydynt ar adeg etholiad, yn foddhaol.

14.1. Cytunwn â chasgliad y Comisiwn.

15. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai fod yn ofynnol i ddarlledwyr sy'n trosglwyddo signal ar wahân i Ogledd Iwerddon gynnig darllediadau o amgylch digwyddiadau gwleidyddol allweddol i bleidiau cymwys yng Ngogledd Iwerddon.

15.1. Yn ei adroddiad, nododd y Comisiwn na chynigir darllediadau gwleidyddol i bleidiau Gogledd Iwerddon, heblaw ar adeg etholiadau, yn wahanol i'r prif bleidiau ym Mhrydain. Mae'n ofynnol i ITV gario darllediadau o amgylch 'digwyddiadau allweddol yn y calendr gwleidyddol' megis Agoriad Swyddogol y Senedd, y Gyllideb a chynadleddau'r pleidiau. Cred y Comisiwn y dylid cynnig cyfleoedd tebyg i bleidiau Gogledd Iwerddon.

15.2. Mater i'r darlledwyr dan sylw yw'r argymhelliad hwn, ac felly mae'n well gadael iddynt hwy a'r rheoleiddiwr ei ystyried. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn caniatáu ar gyfer hyn os yw'r darlledwyr a'r rheoleiddiwr yn meddwl fod hynny'n briodol.

Trefniadau ar gyfer ymgynghori

Rydym yn gwahodd sylwadau ar yr holl opsiynau hyn erbyn 14 Hydref, 2004. Mae hyn yn caniatáu 12 wythnos ar gyfer ymgynghori, sy'n dilyn ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd ar y mater hwn ers 2001.

Darperwch grynodeb os gwelwch yn dda o'r bobl a'r sefydliadau a gynrychiolir gan eich ymateb, a chofiwch y caiff ymatebion eu cyhoeddi yn **www.culture.gov.uk** oni bai eich bod yn eu marcio'n 'Gyfrinachol'.

Byddai'n well gennym pe bai atebion yn cael eu hanfon ar e-bost os oes modd i: **ppbconsultation@culture.gov.uk**

Fel arall gellir eu hanfon i'r cyfeiriad hwn:

Party Political Broadcasting Consultation
Broadcasting Policy Division
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London
SW1Y 5DH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar-lein yn **www.culture.gov.uk**

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r broses ymgynghori ar y papur hwn, cysylltwch â:

Simon Cooper
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street,
London SW1Y 5DH
simon.cooper@culture.gsi.gov.uk

Atodiad A

Y trefniadau presennol ar gyfer darllediadau gwleidyddol

Cyflwynwyd y trefniadau presennol ar gyfer darllediadau gwleidyddol gan y BBC ym 1924 ac maent yn berthnasol yn unig i ddarlledwyr sy'n defnyddio sbectrwm radio daearol (er bod y rhwymedigaeth yn ymestyn i'r un sianeli ar lwyfannau eraill) y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: y BBC, Channel 3, Channel 4 a Channel 5, a gwasanaethau radio analog cenedlaethol: y BBC, Classic FM, Virgin Radio a TalkSPORT.

Y ddeddfwriaeth bresennol a'r rheoleiddiwr newydd - Ofcom

Yn y gorffennol, Deddf Darlledu 1990 oedd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer darllediadau gwleidyddol. Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn ailfabwysiadu darpariaethau Deddf Darlledu 1990 i raddau helaeth, gan ddisodli'r awdurdodau blaenorol (ITC a'r Awdurdod Radio) gyda'r Swyddfa Cyfathrebu (Ofcom.)

Mae Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebu yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol presennol.

Mae isadran (1) yn darparu bod y drefn reoleiddio ar gyfer pob sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig a phob gwasanaeth radio cenedlaethol yn cynnwys:

> '(a) amodau yn gwneud cynnwys yn y sianel honno neu'r gwasanaeth hwnnw ddarllediadau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn ofynnol; ac
> (b) amodau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeilydd y drwydded ddilyn y cyfryw reolau mewn perthynas â darllediadau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm a all gael eu gwneud gan Ofcom.'

Diweddarwyd y ddeddfwriaeth i nodi y gall Ofcom ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gario darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn ogystal â darllediadau gwleidyddol.

Yn ogystal â hynny, gall y rheolau a wneir gan Ofcom gynnwys darpariaeth ar gyfer pennu:

> '(a) y pleidiau gwleidyddol y gellir gwneud darllediadau gwleidyddol ar eu rhan;
> (b) mewn perthynas â phob plaid wleidyddol y gall darllediadau o'r fath gael eu gwneud ar eu rhan, hyd ac amlder y darllediadau; a
> (c) mewn perthynas â phob sefydliad dynodedig y mae'n ofynnol darlledu darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ar eu rhan, hyd ac amlder darllediadau o'r fath.'

Mae hefyd yn ofynnol i Ofcom dan isadran 5 roi sylw i unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y Comisiwn Etholiadol cyn gwneud unrhyw reolau dan y darpariaethau hyn.

Ambell dro, mae darlledwyr trwyddedig eraill wedi cario darllediadau gwleidyddol yn wirfoddol.

Dan y trefniadau trosiannol mae Ofcom wedi etifeddu codau presennol ITC a'r Awdurdod Radio mewn perthynas â darllediadau gwleidyddol – ond maes o law bydd angen iddo ystyried datblygu ei gôd ei hun. Mae'r darlledwyr yn rhwym yn gyfreithiol i gydymffurfio â'r rheolau yn y codau fel amod o'u trwyddedau.

Codau Presennol – Côd y Comisiwn Teledu Annibynnol

Mae Côd Rhaglen y Comisiwn Teledu Annibynnol (Adran 4)[12] yn cynnwys y canllawiau ar gyfer trefniadau'n ymwneud â darllediadau gwleidyddol. Mae'r Côd yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer y system. Mae'r Côd yn nodi tri opsiwn ar gyfer hyd y darllediadau sydd ar gael: 2 funud 40 eiliad, 3 munud 40 eiliad, a 4 munud 40 eiliad.

Mae'r Côd hefyd yn nodi'r digwyddiadau gwleidyddol hynny y mae'n ofynnol i Channel 3, 4 a 5 gario darllediadau gwleidyddol amdanynt (mae'r fanyleb yn amrywio ar gyfer pob sianel), a pha bleidiau a ddiffinnir fel 'pleidiau mawr', ac ar ba feini prawf y seilir y diffiniad hwnnw.

Mae'r Côd yn nodi'r amseroedd pan gaiff darllediadau penodol eu hamserlennu, a'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio cynnwys darllediadau. Mae hefyd yn ymdrin â nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â rhaglennu ar adeg etholiadau.

Codau Presennol – Côd yr Awdurdod Radio

Ar y radio, mae'n ofynnol i wasanaethau analog cenedlaethol gario darllediadau gwleidyddol, a chaiff hyn ei nodi yng Nghôd Newyddion a Materion Cyfoes yr Awdurdod Radio (Adran 2.2)[13]. Mae'r Côd yn darparu canllawiau ynglŷn â chynnwys a rheolaeth olygyddol darllediadau, ond nid yw'n nodi trefniadau dyrannu.

Y BBC ac S4C

Mae'r BBC ac S4C wedi cario darllediadau gwleidyddol yn wirfoddol. Mae'r newidiadau a wnaed i Gytundeb y BBC[14] yn gosod rhwymedigaeth ffurfiol ar y BBC i gynnwys darllediadau gwleidyddol ac yn nodi y dylai rheoleiddio'r rhwymedigaeth hon fod yn fater i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Ddeddf Cyfathrebu yn gosod rhwymedigaeth ar S4C i gario darllediadau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm.

Mae Adran 11(3) o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC a'r Awdurdod Cymreig (S4C) roi sylw i unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y Comisiwn Etholiadol wrth bennu polisi mewn perthynas â darllediadau gwleidyddol.

Grŵp Cyswllt y Darlledwyr

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Cyswllt y Darlledwyr yn darparu fforwm i ddarlledwyr gysylltu â'i gilydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol. Gwahoddir pleidiau gwleidyddol i wneud sylwadau i Grŵp Cyswllt y Darlledwyr ynglŷn â materion sy'n peri pryder iddynt a threfniadau ymarferol. Y rheoleiddwyr darlledu sy'n penderfynu mewn achosion o anghydfod rhwng y pleidiau a'r darlledwyr.

---

[12] Gellir gweld y Codau hyn yn www.ofcom.org.uk

[13] fel troednodyn 12.

[14] Ar gael yn www.communicationsbill.gov.uk

Atodiad B

Darllediadau gwleidyddol a ddangoswyd ar y teledu cyn Etholiad Cyffredinol 2001

Plaid Wleidyddol	**Sianel Deledu**					
	BBC1	**BBC2**	**ITV**	**C4**	**C5**	**CYFANSWM**
Llafur	13	13	13	9	5	53
Ceidwadwyr	13	13	13	9	5	53
Democratiaid Rhyddfrydol	12	12	12	8	4	48
Plaid Cymru	4	4	4	7	3	22
Plaid Genedlaethol yr Alban	4	4	4	3	3	18
Plaid Unoliaethwyr Ulster	4	4	4	0	0	12
Plaid y Democratiaid Cymdeithasol a Llafur	4	4	4	0	0	12
Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd	4	4	4	0	0	12
Sinn Fein	4	4	4	0	0	12
Plaid y Gynghrair	2	2	2	0	0	6
Plaid y Gweithwyr	1	1	1	0	0	3
Llafur Sosialaidd	3	3	3	2	1	12
Y Gynghrair Sosialaidd	2	2	2	2	1	9
Y Blaid Werdd	2	2	2	1	0	7
Plaid Annibyniaeth y DU	3	3	3	2	1	12
Plaid Sosialaidd yr Alban	1	1	1	0	0	3
ProLife	1	1	1	1	0	4

Nodiadau: **ITV** yn cynnwys HTV ac UTV ac mae **C4** yn cynnwys S4C.

Atodiad C

Darllediadau gwleidyddol a ddarlledwyd ar y radio cyn Etholiad Cyffredinol 2001

Plaid Wleidyddol	Gorsaf Radio									
	R4	R2	Virgin	Classic	Talk	Radio Scotland	Radio Wales	Radio Cymru	Radio Ulster	C'swm
Llafur	5	3	3	3	3	4	4	4	0	29
Ceidwadwyr	5	3	3	3	3	4	4	4	0	29
Democratiaid Rhyddfrydol	4	2	2	2	2	4	4	4	0	24
Plaid Cymru	3	2	2	2	2	0	4	4	0	19
Plaid Genedlaetholyr Alban	3	2	2	2	2	4	0	0	0	15
Plaid Unoliaethwyr Ulster	0	0	0	0	0	0	0	0	4	4
Plaid y Democratiaid Cymdeithasol a Llafur	0	0	0	0	0	0	0	0	4	4
Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd	0	0	0	0	0	0	0	0	4	4

Darllediadau gwleidyddol a ddarlledwyd ar y radio cyn Etholiad Cyffredinol 2001 (parhad)

Plaid Wleidyddol	Gorsaf Radio									
	R4	R2	Virgin	Classic	Talk	Radio Scotland	Radio Wales	Radio Cymru	Radio Ulster	C'swm
Sinn Fein	0	0	0	0	0	0	0	0	4	4
Plaid y Gynghrair	0	0	0	0	0	0	0	0	2	2
Plaid y Gweithwyr	0	0	0	0	0	0	0	0	1	1
Llafur Sosialaidd	1	1	1	1	1	1	1	1	0	8
Y Gynghrair Sosialaidd	1	1	1	1	1	0	1	1	0	7
Y Blaid Werdd	0	0	0	0	0	0	1	1	0	2
Plaid Annibyniaeth y DU	1	1	1	1	1	1	1	1	0	8
Plaid Sosialaidd yr Alban	0	0	0	0	0	1	0	0	0	1
ProLife	0	0	0	0	0	0	1	1	0	2

Atodiad D

Asesiad Effaith Rheoliadol Rhannol

1. Ymgynghoriad Darllediadau Gwleidyddol

2. Pwrpas a Darpar Effaith y Mesur

2.1. Amcan

2.1.1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar nifer o fesurau, sydd â'r nod o foderneiddio ein trefniadau ar gyfer darllediadau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, fel eu bod yn cadw i fyny â byd y cyfryngau darlledu, sy'n newid yn gyflym, ac yn helpu i sefydlu deialog agosach rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr.

2.2. Cefndir

2.2.1. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol (a nodir yn llawnach yn Atodiad A uchod) yn darparu ar gyfer pwerau i'r rheoleiddiwr darlledu Ofcom ei gwneud yn ofynnol i Channel 3, 4 a 5 a'r gwasanaethau radio analog cenedlaethol[15] gynnwys darllediadau gwleidyddol yn eu gwasanaethau.

2.2.2. Gwnaeth adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar ddarllediadau gwleidyddol (2003) nifer o argymhellion ar gyfer newid, a nodir yn nhudalennau 7 i 17 uchod. Pwrpas yr adroddiad oedd adolygu rôl darllediadau gwleidyddol wrth ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr i gefnogi eu penderfyniadau pleidleisio.

2.3. Asesu Risg

2.3.1. Wrth ystyried argymhellion y Comisiwn Etholiadol yn y papur ymgynghorol hwn, rydym yn ystyried dwy agwedd benodol ar y system. Yn gyntaf, rydym yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd gan y pleidiau gwleidyddol ynghylch y ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu darllediadau gwleidyddol. Rydym wedi nodi bod pleidiau gwleidyddol wedi lleisio pryderon fod diffyg tryloywder dan y trefniadau presennol ar gyfer dyrannu darllediadau, gormod o ddisgresiwn i ddarlledwyr a diffyg gallu i ragweld beth fydd penderfyniadau'r darlledwyr. Fel y trafodwyd ar dudalen 7 uchod, rydym wedi datgan yn glir ein hymrwymiad i gynnal system o ddarllediadau gwleidyddol a sicrhau ei bod yn parhau i weithio mewn ffordd sy'n deg a chyfiawn i bob ochr; y darlledwyr, y pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd sy'n gwylio ac yn gwrando.

2.3.2. Yn ail, rydym yn edrych ar y system bresennol yng nghyd-destun y cynnydd yn amrywiaeth y sianeli darlledu a'r potensial i ddatblygu dulliau amgen o ennyn diddordeb mewn gwleidyddiaeth trwy gyfryngau eraill. Gan fod mwy o ddewis o sianeli cyfathrebu ar gael yn

[15] Virgin Radio, Classic FM a TalkSPORT yw'r rhain.

awr, mae pryder y gall darllediadau gwleidyddol ddod yn llai effeithiol fel arf i bleidiau gwleidyddol gyrraedd etholwyr ac ennyn eu diddordeb. Mae'r sianeli teledu y mae'n ofynnol iddynt gario darllediadau gwleidyddol ar hyn o bryd yn cyrraedd cyfran o bron i 80% o'r gynulleidfa. Er bod y ffigwr hwn yn awgrymu fod y rhan fwyaf o bobl yn dal i wylio'r prif sianeli daearol, y risg yr ydym yn delio ag ef yw fod yna grŵp o wylwyr, mewn egwyddor o leiaf, sy'n gwylio sianeli eraill, sef rhai lloeren a chebl yn bennaf, nad oes ganddynt yr un cyfle i wylio darllediadau gwleidyddol.

3. Opsiynau a Ystyriwyd

3.1. Wrth geisio delio â'r risgiau a amlinellwyd uchod, rydym wedi ystyried nifer o opsiynau.

Opsiwn 1: Gwneud dim – wrth baratoi'r ddogfen ymgynghorol hon, rydym wedi ystyried a oes angen gweithredu ar hyn o bryd. Roeddem yn cytuno â dadansoddiad y Comisiwn Etholiadol fod modd cyfiawnhau gwelliannau i'r system o ddarllediadau gwleidyddol, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan y pleidiau gwleidyddol a'r newidiadau ym myd darlledu.

Opsiwn 2: Codau gwirfoddol/ hunan-reoleiddio – lle bo hynny'n bosib rydym wedi ystyried dulliau eraill heblaw deddfwriaeth statudol a systemau biwrocrataidd diangen. Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn archwilio'n benodol ac yn ceisio barn ynglŷn ag i ba raddau y gallai mesurau anstatudol sicrhau gwelliannau. Gwneir penderfyniadau yng ngoleuni'r ymatebion.

Opsiwn 3: Deddfwriaeth sylfaenol – unwaith eto, lle bo hynny'n bosib rydym yn bwriadu osgoi deddfwriaeth sylfaenol pe byddai dulliau eraill yn cyflawni ein hamcanion.

Opsiwn 4: Cymysgedd o godau gwirfoddol/ hunan-reoleiddio a deddfwriaeth statudol, lle bo angen, yn seiliedig ar ystyriaeth o risgiau penodol – megis y potensial o beidio â chydymffurfio a'r llurguniad i'r marchnadoedd y gallai hyn ei achosi. Mae'n amlwg na fyddai codau gwirfoddol/ hunan-reoleiddio o bosib yn delio'n ddigonol â phryderon ynglŷn â'r system bresennol; yn wir, mae perygl y gallai unrhyw symudiad i gynnwys y trefniadau presennol mewn deddfwriaeth sylfaenol arwain at golli'r union hyblygrwydd sydd wedi caniatáu i'r system bresennol esblygu'n llwyddiannus a bod yn niweidiol mewn termau ymarferol a democrataidd.

3.2. Ar sail yr opsiynau hyn, bydd yr Asesiad Effaith Rheoliadol hwn yn ystyried y cynigion canlynol a gaiff effaith rheoliadol ar fusnesau, rheoleiddwyr neu bleidiau gwleidyddol, os cânt eu mabwysiadu, sef:

(i) ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu pwyllgor, sy'n cynnwys y darlledwyr ac yn cyfarfod dan gadeirydd sy'n annibynnol o'r darlledwyr, i ystyried dyraniad darllediadau gwleidyddol;

(ii) cynnig i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol i gynnwys meini prawf y dylai'r rheoleiddiwr eu hystyried wrth lunio rheolau ynghylch cymhwyso ar gyfer darllediadau gwleidyddol, eu hyd a'u hamlder;

(iii) newidiadau i'r ddeddfwriaeth fel bod y rhwymedigaeth i gario darllediadau gwleidyddol yr un fath i bob darlledwr;

(iv) cynnig i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw sianel deledu neu radio sy'n cyrraedd cynulleidfa a throthwyon cyfran penodol gynnwys darllediadau gwleidyddol yn eu hamserlenni;

(v) cynigion amgen, boed trwy ddarlledu neu ddefnyddio technoleg y Rhyngrwyd neu ffonau symudol, i sefydlu deialog agosach rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr.

Nid yw'r cynigion hyn yn nacáu ei gilydd felly gellir ystyried cyfuniad o unrhyw rai o'r uchod.

4. Manteision

4.1. Manteision Economaidd

Ni ellir mesur manteision moderneiddio'r system o ddarllediadau gwleidyddol mewn termau ariannol.

4.2. Sectorau Busnes a Effeithir

4.2.1. Dyma'r rhai a effeithir gan y cynigion hyn:

Y rheoleiddwyr darlledu	Mae'r Swyddfa Cyfathrebu (Ofcom) yn gyfrifol am reoleiddio'r sector darlledu masnachol. Mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC ac S4C, bydd gan Fwrdd Llywodraethwyr y BBC a'r Awdurdod Cymreig gyfrifoldebau rheoliadol hefyd.
Darlledwyr masnachol y mae'n ofynnol iddynt gario DG ar hyn o bryd	Teledu: Channel 3, 4 a 5 Radio: Virgin, Classic FM, TalkSPORT.
Darlledwyr eraill sy'n cario DG	BBC (Teledu a Radio), S4C.
Darlledwyr eraill	Ar hyn o bryd mae Ofcom yn trwyddedu dros 400 o sianeli darlledu teledu[16] a mwy na 300 o orsafoedd radio[17].
Pleidiau Gwleidyddol	Ar hyn o bryd mae 5 plaid wleidyddol yn cymhwyso'n rheolaidd ar gyfer darllediadau gwleidyddol ym Mhrydain (4 plaid yng Ngogledd Iwerddon) a 20-30 plaid arall y bydd Ofcom yn eu hystyried ar sail y meini prawf cymhwyso yn ystod pob Etholiad.

4.3. Manteision Cymdeithasol

Câi unrhyw newidiadau i'r system o ddarllediadau gwleidyddol eu gwneud er budd democratiaeth er mwyn sefydlu deialog agosach rhwng y pleidiau gwleidyddol a'r pleidleiswyr ac i gynyddu'r wybodaeth a roddir i'r etholwyr.

4.4. Manteision Amgylcheddol

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn arwain at fanteision amgylcheddol penodol.

[16] Sianeli ieithoedd tramor yw rhai o'r rhain; mewn achosion eraill, bydd deiliaid trwyddedau yn rhannu sianeli; ni chaiff rhai eu darlledu yn y DU; ac mae rhai yn trosglwyddo o wledydd tramor.

[17] Nid yw hyn yn cynnwys Trwyddedau Gwasanaethau Cyfyngedig.

5. Costau

5.1. Costau Economaidd – Costau Cydymffurfio i Fusnesau

5.1.1. Costau'r Darlledwyr

5.1.2. Mae'n anodd mesur y gost o gario darllediadau gwleidyddol i ddarlledwyr unigol ar hyn o bryd. **Rydym yn ceisio eich barn yn y ddogfen ymgynghorol hon ynglŷn â'r ffordd y gallai ymestyn y gofyniad i ddarlledwyr gario darllediadau gwleidyddol gael ei gyflwyno'n ymarferol.** Cynhelir asesiad pellach o'r costau yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Rhagwelwn y gallai costau godi trwy unrhyw effaith ar y gyfran o'r gynulleidfa os caiff hynny ei adlewyrchu mewn refeniw hysbysebu neu danysgrifio, ond nid yw'n glir a fyddai hynny'n digwydd.

5.1.3. **Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn unrhyw syniad o gostau posib ymestyn y gofyniad.** Sylweddolwn fod yna nifer o elfennau newidiol amhenodol – nifer, hyd, amlder ac amserlennu darllediadau – sy'n ei gwneud yn anodd i asesu costau. **Awgrymwn, fodd bynnag, y gallai ymatebwyr roi syniad o'r costau ar raddfa lithro yn cychwyn o ofyniad isaf.**

Dylid ystyried y cydbwysedd rhwng costau a manteision cynigion amgen i sefydlu deialog agosach rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr hefyd.

5.2. Costau'r Pleidiau Gwleidyddol

5.2.1. Byddai costau i'r pleidiau gwleidyddol pe byddent yn dewis cynhyrchu cyfres o ddarllediadau gwleidyddol gwahanol. Fel yn achos darlledwyr, dylid ystyried costau a manteision cynigion amgen ar gyfer ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith yr etholwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bleidiau gwleidyddol fanteisio ar gyfleoedd ychwanegol i ddarlledu a byddent, er enghraifft, yn berffaith rydd i barhau i gynhyrchu eu cyfres bresennol o ddarllediadau yn unig, am yr un gost ag ar hyn o bryd.

5.2.2. Mae costau cynhyrchu darllediadau gwleidyddol yn amrywio'n fawr, ac yn fater o ddewis i'r pleidiau eu hunain i raddau helaeth. Fel arwydd o gostau cyfredol darllediadau, mae'r canlynol yn nodi'r symiau y gwariodd y prif bleidiau ar ddarllediadau ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2001 ym Mhrydain[18]:

Plaid Wleidyddol	Cyfanswm Gwariant ar Ddarllediadau gwleidyddol (£oedd)
Ceidwadwyr	567, 286
Llafur	272, 849
Democratiaid Rhyddfrydol	55,353
Plaid Genedlaethol yr Alban	38,794
Plaid Cymru	7,306

[18] Ffynhonnell, *Register of Campaign Expenditure*, Y Comisiwn Etholiadol, www.electoralcommission.org.uk

5.3. Costau'r Rheoleiddwyr

5.3.1. Byddai'n rhaid i Ofcom dalu unrhyw gostau yn ymwneud â sefydlu pwyllgor sy'n cynnwys darlledwyr i ystyried dyrannu darllediadau gwleidyddol. Ar sail y model presennol, nid ydym yn credu y byddai'r costau hyn yn sylweddol, a gallai Ofcom adfer unrhyw arian ychwanegol angenrheidiol trwy'r system o ariannu eu gwaith trwy ffioedd trwydded a godir ar ddarlledwyr trwyddedig a chodi tâl ar y BBC ac S4C. Dylid nodi bod darlledwyr eisoes yn rhoi eu hamser i Grŵp Cyswllt y Darlledwyr, felly mae'n annhebyg y byddai ymrwymiad i bwyllgor statudol newydd yn ychwanegu'n fawr at gostau uniongyrchol gweithredu'r system bresennol i ddarlledwyr. Felly, dylai'r cynigion arwain at gynnydd bach mewn costau yn unig, yn enwedig pe câi swydd y cadeirydd annibynnol ei hariannu.

5.4. Costau Cymdeithasol

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn arwain at gostau cymdeithasol penodol.

5.5. Costau Amgylcheddol

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn arwain at gostau amgylcheddol penodol.

6. Tegwch a Chydraddoldeb

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau sydd eisoes yn ddiamddiffyn neu dan anfantais. Nod y cynigion yw datblygu deialog agosach rhwng pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr ar draws pob grŵp mewn cymdeithas.

7. Effaith ar Fusnesau Bach

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn effeithio ar fusnesau bach. Mae'n annhebygol y byddai cynigion sy'n effeithio ar ddarlledwyr sy'n cyrraedd cyfran benodol o'r gynulleidfa genedlaethol yn effeithio ar fusnesau bach.

8. Asesu Cystadleuaeth

8.1. Nid ydym o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth. Mae'r farchnad a effeithir yn perthyn yn bennaf i'r farchnad ddarlledu lloeren a chebl. Byddai'r cynnig i ymestyn y rhwymedigaeth i gario darllediadau gwleidyddol i'r darlledwyr hyn, pe cytunid ar hynny, yn gosod gofynion ar ddarlledwyr sydd â chyfrannau tebyg o'r gynulleidfa ac felly ni fyddent yn effeithio'n fwy ar rai cwmnïau cyffelyb nag eraill. Pe câi darllediadau gwleidyddol eu hymestyn i sianeli arbenigol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, mae'n debyg mai sianeli cyffelyb a gâi eu heffeithio, e.e. sianeli cerddoriaeth bop.

8.2. Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar strwythur y farchnad, nac yn newid nifer na maint cwmnïau. Ni fyddent ychwaith yn arwain at gostau sefydlu uwch na chostau parhaus i gwmnïau newydd neu ddarpar gwmnïau. Byddai'n rhaid i unrhyw gwmnïau sy'n ymuno o'r newydd â marchnad ddarlledu'r DU dalu'r un costau trwyddedu â'u cystadleuwyr ac nid yw'n debyg y bydd y rhain yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i unrhyw reoleiddio yn y maes hwn.

9. Gorfodaeth a Chosbau

Câi unrhyw gynigion a dderbynnid eu gorfodi trwy'r drefn drwyddedu darlledu a weithredir ar hyn o bryd gan Ofcom. Rhennir gwaith gorfodi rhwng Ofcom a Llywodraethwyr y BBC a'r Awdurdod Cymreig, mewn perthynas yn unig â'r materion hynny sy'n parhau'n gyfrifoldeb iddynt.

10. Monitro ac Adolygu

Câi effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth ei fesur gan y rheoleiddwyr darlledu (gweler adran 9 uchod) a'r Comisiwn Etholiadol.

11. Ymgynghori

Rydym yn croesawu sylwadau ar bob agwedd o'r Asesiad Effaith Rheoliadol hwn. Gellir anfon y rhain i'r un cyfeiriadau â'r rhai a nodir ar dudalen 17.

Yr Adran dros Ddiwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
PP 706 Gorffennaf 2004